**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Mae adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod addysg lleol baratoi datganiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol yn cynnwys unrhyw wybodaeth a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau, sef gwybodaeth mewn perthynas â’r canlynol –

y gwariant a gynlluniwyd am y flwyddyn honno,

y gwariant a dynnwyd mewn gwirionedd,

adnoddau eraill a ddyrannwyd.

Mae adran 52(3) yn darparu y gall manylion gael eu rhagnodi drwy gyfrwng rheoliadau ynghylch ffurf paratoi’r datganiad a dull ac amser ei gyhoeddi.

Darpariaethau sy’n rhagnodi’r materion uchod sydd yn y rheoliadau presennol.

## Rheol Sefydlog 11.5

Gan ein bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o’r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i wneud nifer o bwyntiau sydd bellach wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor dynnu sylw’r Cynulliad atynt yn arbennig.

**J H Turnbull**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

12 Ebrill 2000
Cyf: LAD 01-01-066